**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Hayden Llewellyn,
Prif Weithredwr,
Cyngor y Gweithlu Addysg

01 Gorffennaf 2025

**Gwybodaeth ddilynol o'r sesiwn dystiolaeth**

Annwyl Hayden,

Diolch ichi am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 5 Mehefin. Roedd yn sesiwn ddefnyddiol iawn ar ddechrau ein hymchwiliad i recriwtio a chadw athrawon.

Gwnaethom gytuno i ysgrifennu i ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y gwaith ar gymhellion ariannol. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn effeithiolrwydd cymhellion ariannol, felly byddai unrhyw wybodaeth y gallwch ei rhoi am hyn yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr. Byddwn hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth am y gwaith hwn, gan ein bod yn gwerthfawrogi'r ffaith ei bod wedi comisiynu gwaith gennych yn y maes hwn.

Yn ystod y sesiwn, fe wnaethoch chi hefyd gyfeirio at addysgu fel 'cynnyrch', ynghyd â rhai o'r rhesymau pam mae'n llai deniadol i rai graddedigion ar hyn o bryd. Ar ben hynny, fe wnaethoch awgrymu y dylid canolbwyntio ar ddelio â 'chwpl o flaenoriaethau' wrth fynd i'r afael â hyn. Beth, yn eich barn chi, yw'r blaenoriaethau a fyddai'n gwneud addysgu yn fwy deniadol?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb erbyn dydd Llun 1 Medi. Os ydych yn rhagweld unrhyw broblemau gyda'r amserlen hon, rhowch wybod i'r Clerc.

Yn gywir,

Buffy Williams AS

Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.